

EINION ap COLLWYN (fl. 1100?),

Enw: Einion ap Collwyn

Plentyn: Thomas Artemus Jones

Rhiant: Collwyn

Rhiant: Cadifor ap Collwyn

Rhiant: Collwyn ap Gwaethfoed

Rhyw: Gwryw

Maes gweithgaredd: Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig

Awdur: Robert Thomas Jenkins

y g r y cytuna hen draddodiadau iddo, wedi ffraeo â [lestyn ap Gwrgant](#), wahodd y Normaniaid i oresgyn Morgannwg. Ffigur hanner-chwedlonol yw ef, ac y mae'n awgrymog fod o leiaf dair stori am ei dras. Dywed un ei fod yn fab i Gollwyn ap Gwaethfoed o Geredigion; un arall mai mab oedd i Gadifor ap Collwyn o Ddyfed; ond yn ôl beirdd fel [Lewis Glyn Cothi](#) a [Gwilym Tew](#), g r o Wynedd ydoedd, a ddaeth i Forgannwg yn amser [lestyn](#) - dywed [George Owen](#) o'r Henllys fod ei dad, Collwyn, yn nai i Angharad, ferch Ednowain ap Bleddyn o Ardudwy, a mam [lestyn](#). Mwy awgrymog fyth yw'r ffaith nad oes sillaf am Einion yn llyfr [Syr John Lloyd](#) ar hanes Cymru (gweler ei nodyn ar waelod t. 402), ac na fwriadai ei gynnwys yn y *Bywgraffiadur* hwn. Casglwyd y traddodiadau amdano, am y teuluoedd o'r Blaeneudir a honnai ddisgyn ohono, ac am ei gysylltiadau â thraddodiad llenyddol Morgannwg, yn llyfr yr [Athro G. J. Williams](#), *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (mynegai).

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

